Cynhyrchwyr sy'n gwerthu'n uniongyrchol

Os ydych chi'n werthwr uniongyrchol, rhaid i chi hefyd gadw cofnod o'r canlynol:

- faint o laeth a brosesir
- y dull prosesu
- faint o gynhyrchion llaeth a brosesir, a pha fath
- faint o laeth cyflawn a ddefnyddir i gynhyrchu cynhyrchion llaeth (hy y cyfraddau trosi)
- llaeth a chynhyrchion llaeth a werthir yn uniongyrchol i'w bwyta/yfed.

Mae'r holl laeth sy'n gadael daliad yn cyfrif yn erbyn cwota, hyd yn oed os nad yw'r cynhyrchydd yn derbyn dychweliad ariannol amdano. Mae hyn yn cynnwys llaeth sydd wedi ei halogi â gwrthfiotigau. Nid yw llaeth halogedig sy'n cael ei waredu ar y daliad yn cyfrif yn erbyn cwota.

rpa rural payments agency

Cadw Cofnodion • Cwotas Llaeth

Blwch Post 277
Caerwysg EX5 1WB
Rhif ffôn 01392 266466 Rhif ffacs 01392 266489
milk.quotas@rpa.gsi.gov.uk
www.rpa.gov.uk

mq131cy ver 11.0 apr 2007

Cadw Cofnodion • Cwotas Llaeth

Rheoliad Comisiwn (CE) 595/04, fel y'i diwygiwyd, Erthygl 24 (5 a 6).

Rhaid i'ch cofnodion misol adlewyrchu mis calendr.

Dan Atodlen 2 Rheoliadau Cwotas Cynnyrch Llaeth 2005, fel y'u diwygiwyd, mae'n rhaid i chi gadw cofnodion. Bydd methu â chadw'r cofnodion a restrir yn arwain at gosb dan y rheoliad perthnasol yn y Rheoliadau Cwota Cynnyrch Llaeth.

Rhaid i chi gadw eich holl gofnodion am o leiaf 3 blynedd galendr ar ôl y flwyddyn gwota y maent yn berthnasol iddi.

rpa rural payments agency

Pam bod rhaid i chi gadw cofnodion

Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn defnyddio eich cofnodion i wirio cyfrifiad lefïau, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau'r Gymuned Ewropeaidd.

Os nad ydych chi'n gallu darparu cofnodion o'r llaeth neu gynhyrchion llaeth a gynhyrchwyd neu a ddosbarthwyd mewn unrhyw flwyddyn, byddwn:

- yn gwneud amcangyfrif ar gyfer y flwyddyn honno, gan ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd wrth law
- yn cyfrifo unrhyw lefïau trwy ddefnyddio'r amcangyfrif hwnnw.

RhCCLl (2005) fel y'u diwygiwyd, Atodlen 2



Rhaid i gynhyrchwyr, prynwyr, proseswyr, cludwyr a labordai gadw cofnodion ar sail ddyddiol, fisol a blynyddol. Mae'r daflen hon yn rhestru'r cofnodion y mae'n rhaid i gynhyrchwyr eu cadw.

Y cofnodion y mae'n rhaid i gynhyrchwyr eu cadw

Cofnodion dyddiol

Rhaid i chi gofnodi faint o laeth y mae eich buches yn ei gynhyrchu bob dydd.

Cofnodion buches

Rhaid i chi gadw cofnodion cyfredol gywir o bob buwch a heffer â llo a ddefnyddir i gynhyrchu llaeth. Rhaid i hyn gynnwys:

- eu brîd
- faint sy'n llaetha
- faint sydd wedi mynd yn hesb
- dyddiad unrhyw enedigaethau
- manylion a dyddiadau unrhyw farwolaethau.

Rhaid i chi hefyd gadw cofnodion o wartheg sy'n ymuno â'ch buches neu'n ei gadael. Mae hyn yn cynnwys:

- o ble daethon nhw neu i ble'r aethon nhw
- y dyddiad y gwnaethoch eu symud
- eu nodau adnabod.

Rhaid i chi hefyd gadw:

- anfonebau am unrhyw fwyd a brynwyd i'r fuches.

Manylion eich cwota:

Rhaid i chi gadw cofnodion o'r canlynol:

- cwota sy'n eich meddiant parhaus
- unrhyw lesio cwota y buoch yn ymwneud â nhw
- unrhyw drosglwyddiadau cwota a wnewch.

Cofnodion eraill y mae'n rhaid i chi eu cadw

Rhaid i chi gofnodi faint o laeth a chynhyrchion llaeth, a pha fath, a gynhyrchwyd ar eich daliad a'ch bod chi wedi:

- gwastraffu ar y daliad
- eu defnyddio i'w bwyta/yfed gartref
- eu trosglwyddo'n rhad ac am ddim (yn agored i lefi ers Ebrill 1993)
- eu difa dan drwydded gan Defra, neu gorff arall y llywodraeth.

(Os ydych chi'n werthwr uniongyrchol ac yn dal llai na 4,855 litr o gwota gwerthu uniongyrchol, yna nid yw'r tri phwynt bwled uchod yn berthnasol.)

Os yw hi'n briodol, fe ellid gofyn i chi hefyd gofnodi faint o laeth a chynhyrchion llaeth, a pha fath, a gynhyrchwyd ar y daliad:

- sydd mewn stoc ar y daliad
- rydych chi wedi eu prynu, eu cyfnewid neu eu derbyn fel arall, gyda chopïau o'r anfonebau gwerthiant.

Rhaid i chi hefyd gadw manylion y llaeth a werthwyd gennych i brynwr cyfanwerthu, gan gynnwys:

- y math o laeth neu gynhyrchion llaeth
- faint a gyflenwyd
- enw a chyfeiriad y prynwr
- dalenni talu gan y prynwr
- derbynebau tancer, lle ceir anghysonderau rhwng dalen dalu'r prynwyr gwreiddiol a derbynneb y tancer.